




## Diolch a phob hwyl Miss Ceri

Hoffwn ddiolch i Miss Ceri am ei gwaith fel Swyddog Gweinyddol yr ysgol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Dymunwn yn dda iddi yn ei swydd newydd. Cofiwch alw heibio i ddweud helo Miss Ceri!

## *Thank you Miss Ceri and best wishes*

*I would like to thank Miss Ceri for her work as the school's Administrative Officer during the past two years. We wish her well in her new position. Remember to drop by to say hello Miss Ceri!*

---

96%

## Presenoldeb

Presenoldeb yr hanner tymor hwn oedd 96%
Rhannwyd posteri yn y llythyr wythnos ddiwethaf yn egluro beth mae presenoldeb da yn ei olygu ar gyfer eich plentyn.

## *Attendance*

*Attendance this half term was 96%*
*Posters were shared in last week's letter explaining what good attendance means for your child.*

---



**15/11/2024**

## Plant Mewn Angen

Yn dilyn llwyddiant y llynedd, mae'r Pwyllgor Dyngarol wedi penderfynu cynnal 'Sgen ti dalent?' eleni eto yn yr ysgol ar Ddiwrnod Plant Mewn Angen. Byddwn yn dilyn yr un fformat : bydd cyfle i bob plentyn berfformio unrhyw dalent o flaen y dosbarth yn gyntaf, yna bydd pleidlais pa act fydd yn perfformio o flaen gweddill yr ysgol. Ewch ati i ymarfer eich talent dros y gwyliau hanner tymor yn barod!

## *Children in Need*

*Following last year's success, the Humanitarian Committee has decided to hold a have-a-go talent acts 'Sgen ti dalent?' again this year at the school on Children in Need Day. We will follow the same format: every child will have the opportunity to perform any talent in front of the class first, then there will be a vote on which act will perform in front of the rest of the school. How about practicing your talent over the half term holidays?!*

---



## Dyddiadau pwysig yr hanner tymor nesaf

- Cynhelir Ffair Nadolig y G.Rh.A yn yr ysgol ar nos Fercher y 4ydd o Ragfyr – gweler y poster ar waelod y llythyr
- Cynhelir y Gyngerdd Nadolig eleni ar nos Iau y 12$^{fed}$ o Ragfyr yn y Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau.
- Bydd yr ysgol yn cau ar gyfer gwyliau'r Nadolig am 3:30yp ar ddydd Gwener yr 20$^{fed}$ o Ragfyr 2024.

## *Important dates next half term*

- *The PTA's Christmas Fayre will be held on December 4$^{th}$ in the school hall – see poster at the end of the letter*
- *This year's Christmas Concert will be held on Thursday 12th December in the Great Hall at the Arts Centre.*
- *The school will close for the Christmas holidays at 3:30pm on Friday the 20th of December 2024.*

**Y Gymraeg** | ***The Welsh language***




**< Poster Clwb Cwtsh**

---

# C.Rh.A
# P.T.A

### C.Rh.A

Hoffwn ddiolch i holl aelodau newydd y G.Rh.A am gyfarfod a pharatoi ar gyfer y Ffair Nadolig eleni. Os hoffech ymuno – dydy hi ddim yn rhy hwyr! Rydym yn chwilio yn arbennig am rieni ym ml. 4 a 5 i ymuno. Gweler y poster isod ar gyfer y Ffair Nadolig – gyda diolch i Beth o'r Gymdeithas am ei ddylunio.

### *P.T.A*

*I would like to thank the new members of the PTA for meeting and preparing for this year's Christmas Fair. If you would like to join the PTA - it's not too late! We are particularly looking for parents in yrs. 4 and 5 to join. See the poster below for the Christmas Fair - with thanks to Beth for designing it.*

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**

***If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.***

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth Dros Dro / *Acting Headteacher***
**25/10/2024**
www.ysgolgymraeg.cymru

# Ffair Nadolig

## YSGOL GYMRAEG ABERYSTWYTH

# Christmas Fair

**4 RHAGFYR** | **4 DECEMBER**

5:30yh - 7:30yh

Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Stondinau Cynnyrch Amrywiol
Crefftau
Gemau
Bwyd a Diod
Peintio Gwyneb
Perfformiadau Nadoligaidd


ymweliad bach gan Siôn Corn....


Various Produce Stalls
Crafts
Games
Food and Drink
Face Painting
Christmas Performances

and a little visit from Santa....

Arian parod yn unig!
Cash only!

Oedolion £2, Plant Ysgol Uwchradd £1, Plant YGA am ddim
Adults £2, Secondary School Children £1, YGA Children free




Urdd - Gweithgareddau







